**Beirniadaeth Cystadleuaeth 339: Barddoniaeth Blwyddyn 5 a 6**

**Beirniad: Delyth Humphreys**

Braf oedd gweld parhad yn mhoblogrwydd y gystadleuaeth hon eleni gyda dros 180 o gerddi i'w darllen a'u tafoli. Yn sicr mae dychymyg byw gan blant Cymru a'r testun 'Teithio' yn apelio'n fawr ac yn cynnig ei hun i'w ddehongli mewn cymaint o wahanol ffyrdd. Crwydrodd yr ymgeiswyr i bob cwr o'r byd… a thu hwnt, i gyrraedd y bydysawd yn ogystal. Serch hynny, neges glir mewn sawl cerdd yw, er y pleser o fynd ar wibdeithiau ledled y byd, dychwelyd adref i Gymru yw'r uchafbwynt. Os yw'r cerddi yma'n wir adlewyrchiad o falchder ein cenhedlaeth ifanc yn eu gwlad, bydd Cymru mewn dwylo diogel iawn mewn blynyddoedd i ddod. Llwyddodd **Branwen Bendigedig** i gyfleu hyn yn 'fendigedig' mewn cerdd sy'n ymweld â Japan, Yr Aifft, America ond i enwi ychydig wledydd, cyn datgan yn y llinell olaf ' *Rwy'n teimlo hiraeth am fy Nghymru.*'

Roedd nifer yn ddigon mentrus i saethu i'r gofod mewn roced ond cerdd **Aron Ramsey** yn cyfarch seren wib ac yn holi am ei thaith duag at y Ddaear sy'n aros yn y cof. I ffurf lenyddol mor gryno â cherdd, mae adeiladwaith effeithiol yn rhan greiddiol o'i llwyddiant a chafwyd cyferbyniad effeithiol yma rhwng y seren wib yn cychwyn yn '*belen o egni ar dân/ yn gyffro i gyd'* cyn '*cyrraedd jyngl o jync'* y Ddaear gan ddiweddu ei thaith 'yn belen o dristwch/ yn siom i gyd.'

Cafwyd cerddi eraill â negeseuon hynod o leddf ac ingol i'n hatgoffa o'r dioddefaint a geir yn y byd ar hyn o bryd. Cerddi am ryfeloedd a ffoaduriaid a llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i ysgrifennu'n hynod aeddfed a gofalus o ystyried oedran y gystadleuaeth hon. Cyferbyniad arall sy'n aros yn y cof yw'r hyn a geir gan **Blodeuwedd 1**. Mae'n cyfosod am yn ail, fesul pennill daith unigolyn yn cael mynd ar wyliau, yn erbyn ffoadur yn croesi'r moroedd mewn cwch bach. Llwydda'r pennill olaf i grynhoi'r neges yn drawiadol: '*Mae bywyd weithiau'n greulon/ heb degwch ar draws y byd,/ Mae pawb yn haeddu teithio/ I fyd sy'n llawn o hud*.' Nid yw'r llinellau wastad yn llifo a byddai'r gerdd wedi elwa o gyfnewid ambell i air nad oedd yn llwyr yn taro deuddeg ond mae ymgais **Blodeuwedd 1** yn sicr yn agos iawn i'r brig.

Mewn cystadleuaeth mor swmpus, roedd unrhyw gerdd â chysyniadau unigryw yn sicr hawlio'r sylw. Cerddi gan feirdd megis **Awen** sy'n 'sbecian ar fy map teimladau' ac yn mynd am 'antur yn fy ymennydd'. Cysyniad gwych arall oedd personoli trên a gluda theithwyr o bob math mewn cerdd gan **Daisy Wells**. Cludir myfyrwraig ifanc yn gadael cartref am y tro cyntaf ac wrth i'r fam '*grio dagrau tawel'* dymuniad y trên yw gadael i'r fam wybod '*wna'i gadw hi'n ddiogel.'* Cludir *'gwraig unig a'i hen gi blinedig' yn* ddyddiol tan i'r diwrnod gyrraedd mai'r wraig yn unig a ddaw ymlaen- *'roedd yn rhaid i'w hen ffrind ffyddlon ei gadael.'*

Byddai'n bosib cyfeirio at ddegau mwy o gerddi a roddodd wir bleser i'w darllen ond rhaid troi golygon at y tri ar y brig.

Yn debyg i'r gerdd a soniwyd eisoes gan **Blodeuwedd 1**, mae **Blodeuwedd 2** yn dilyn trywydd digon tebyg. Taith i ddiogelwch rhag erchyllterau'r rhyfel sydd gan y bardd yma gan ddiolch i'r trên am y ddihangfa mewn personoliad trawiadol- '*Yr arwr wedi cyrraedd,/ Y trên yn fy ngwahodd i.'* Mae defnydd effeithiol o'r synhwyrau i greu darlun byw iawn o fywyd mewn gwlad ryfelgar- '*Anadlu llwch o anobaith,/ Tân yn llosgi'r cymylau,/ Bomiau byddarol yn fwledi o dristwch*.'

Awn i gyfeiriad cwbl wahanol yng ngherdd **Cochyn** am ei falchder o siarad Cymraeg. Cerdd digon syml yw o ran mydr ac odl ond mae hyn yn galluogi i'r delweddu a neges y gerdd gael y llwyfan. Cawn fynd ar daith **Cochyn** i ddysgu'r Gymraeg gan mai yn Saesneg oedd ei eiriau cyntaf. Y raddol '*cam wrth gam, fel cerrig mân,/ Fe gasglais eiriau iaith fy ngwlad,…Lle tyfodd coeden fawr o'r had*.' Ceir delweddu estynedig erbyn y pennill olaf sy'n cyfleu cariad y bardd at yr iaith, '*Trwy goedwig nawr y cerddaf i,/ Ar lwybr na ddaw byth i ben,/ Ac er mor droellog yw y daith,/ Dail yr iaith sydd uwch fy mhen*.' Mae lle i fod yn ' farddonllyd' gan ddefnyddio iaith flodeuog a phentyrru ansoddeiriau os yw'n gweddu i naws y gerdd ond mae cerdd **Cochyn** yn profi gall llwyddiant cerdd hefyd ddod o gadw'r iaith y syml, canolbwyntio ar un ddelwedd gan adael i lais a neges y bardd aros yn y cof.

Taith yr ifaciwî a gawn gan **Ceirios**, cysyniad digon cyfarwydd i greu cerdd neu darn o ryddiaith amdano ond nid yw hyn y tynnu dim oddi ar y lwyddiant y gwaith yma. I gael dychwelyd at bwysigrwydd adeiladwaith cerdd, llwyddodd **Ceirios** i fynd â ni ar daith o ansicrwydd a pheryglon dinas Lerpwl yn ystod y rhyfel i ddiogelwch ac hafan Cymru. Mae newid naws cyson drwy'r gerdd; dilynir llinellau megis *'Strydoedd yn deffro fel plant yn deffro o drwmgwsg,/ Haul yn gwenu*,' gan '*cysgodion yn ymosod ar y ddinas/ Sgrechian swnllyd y seiren yn boddi'r strydoedd*.' Mae cyfle i gydymdeimlo gyda'r mamau'n gorfod ffarwelio gyda'u plant wrth iddynt gamu ar y trên a gwêl y plentyn yn y gerdd wrth nesáu at Gymru '*Yn y pellter mae'r mwg yn diflannu,/ Yn lle bomiau'n disgyn/Clywaf adar y canu/…diogelwch cefn gwlad*.' Ond nid yw **Ceirios** yn gadael i'r darllenydd deimlo llwyr ryddhad, nid oes delfrydu yma o blant Lerpwl mor hapus a diolchgar o gael croeso yng Nghymru eu bod yn anghofio am adref. Cawn ein hatgoffa mai plant ifanc yn cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd sydd yma ac er mai '*Paradwys yw Cymru/ Rydyn i'n ddiogel/ Ond does dim i leddfu pwysau'r hiraeth*.' Mae **Ceirios** yn fardd ddigon aeddfed a chyffyrddus gyda'r testun a'r ffurf i gloi'r gerdd ar nodyn anesmwyth ond triw i wir deimladau'r ifaciwîs.

Felly am greu darluniau byw drwy ei arddull rhof y drydedd wobr i **Blodeuwedd 2.** Yn ail mae **Cochyn** am ddelweddu hyfryd ar destun sydd mor agos at galon y genedl. Yn llwyr haeddu'r wobr gyntaf mae **Ceirios** am lwyddo i grynhoi mewn cerdd yr hyn sy'n aml cael ei wneud mewn straeon a nofelau swmpus, effaith rhyfel ar blant diniwed.

Diolch y fawr i bob un a gystadleuodd, bu'n bleser beirniadu eleni.

<u>Y Daith</u>

Dinas lachar, dinas lawen, dinas liwgar,
Clywaf blant yn chwarae, Mamau'n coginio,

Aroglaf fwy blasus yn y gegin,

Strydoedd yn deffro fel plant yn deffro o drwmgwsg,

Haul yn gwenu,

Yna roedd cysgodion yn ymosod ar y ddinas,

Sgrechian swnllyd y seiren yn boddi'r strydoedd

Ofnus, pryderus, ansicr.

Clywaf fy mam yn dweud "Hwyl fawr, cariad,"

Syllaf ar y llawr,

Dal y dynn yn y cês trwm a'r tedi fflwfflyd,

Clywaf famau yn crio, bomiau yn disgyn, trên yn chwibanu,

Blasaf ddagrau hallt yn rhedeg fel afon,

Cael fy ngwthio i'r anghenfil mawreddog,

Wrth weld bomiau yn disgyn yn y pellter.

Yn y pellter mae'r  mwg yn diflannu,

Yn lle bomiau y disgyn

Clywaf adar yn canu, trên yn chwibanu, distawrwydd diogel cefn  gwlad,

Aroglaf fara ffresh a thê poeth,

Y gwynt y sibrwd y dawel fel ei fod yn rhannu cyfrinach,

Y mynyddoedd yn eich gwarchod,

Glaswellt gwyrdd mewn caeau hardd,

Paradwys yw Cymru.

Rydyn ni'n ddiogel.

Ond does dim i leddfu pwysau'r

Hiraeth.